

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

## COFNODION Y CYNGOR YSGOL

**Dyddiad y cyfarfod** – 28.9.16

**Amser** – 9.00yb

**Lleoliad** – ystafell ddosbarth Mrs Llwyd, 6LI

### Presennol

Gethin Owen-Hughes, Lucy Morgan-Williams,  
Owain Jobbins, Catrin Haf,  
Nel Evans, Alun Roberts,  
Magi Rowlands, Sami Prysor,  
Owen Jac Roberts, Anwen Whitehead,  
Mrs Llwyd

1. **Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Gethin**, y Cadeirydd.

2. **Tynnu lluniau'r Cyngor Ysgol** – noddodd Gethin fod Mr James am dynnu lluniau aelodau'r Cyngor Ysgol er mwyn diweddarau'r wefan, yr arddangosfa yn y Neuadd a'r Blwch Syniadau. Bydd Gethin yn rhoi cyhoeddiad yn ystod y dydd er mwyn casglu pawb ynghyd i dynnu'r lluniau.

3. **Unrhyw faterion yn codi** –

a) **Diffyg sebon yn y tai bach**. Nododd Owain fod hyn yn broblem yn nhai bach y bechgyn a chytunodd Catrin fod hyn yn broblem yn nhai bach y merched hefyd. Penderfynwyd cyfeirio'r broblem at y **Pwyllgor Taclo'r Toliedau** – Gethin i wneud hyn.

b) **Astroturff ar yr iard** – roedd sawl aelod o'r Cyngor Ysgol yn awyddus i weld astroturf ar ran o iard y plant mawr, ac awgrymodd Sami efallai y byddai modd cynnal gweithgareddau codi arian er mwyn ariannu hyn. Penderfynwyd cyfeirio'r syniad at y pwyllgorau **Gorau Chwarae Cyd Chwarae** a **Dyngarol** (Owain i wneud hyn). Roedd Sami hefyd yn awyddus i'r **Pwyllgor Gorau Chwarae Cyd Chwarae** ddatblygu'r syniad o gael bocsys i'r gôl-geidwaid wedi eu marcio lle mae'r goliau pêl-droed newydd.

c) **Gwastraff Bwyd** - soniodd Alun o Fl.5 fod angen cynllun er mwyn atal gwastraffu bwyd amser cinio, a nododd holl aelodau'r Cyngor Ysgol eu bod wedi sylwi fod hyn yn broblem. Awgrymwyd y syniad o wobwr i'r dosbarth sy'n cynhyrchu'r lleiaf o wastraff bwyd bob wythnos, ond cytunodd pawb y byddai hyn yn anodd i'w fonitro. Penderfynwyd cyfeirio'r mater at y **Pwyllgor Bwyta'n Iach**. Lucy i wneud hyn.



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

ch) **Gwersi coginio ym Mhenweddig** – gan gyfeirio at bolisi un o’r ymgeiswyr yn ffug etholiad yr ysgol nôl ym mis Mai, dywedodd Gethin fod nifer o blant wedi sôn wrtho y byddent yn awyddus i flynyddoedd 3 i 6 dderbyn gwersi coginio achlysurol draw ym Mhenweddig. Bydd Gethin yn awgrymu hyn wrth Mr Williams.

d) **Holi am syniadau disgyblion** – atgoffodd Gethin holl aelodau’r Cyngor Ysgol i annog aelodau eu dosbarthiadau am awgrymiadau ar ffyrdd o wella’r ysgol, neu i rannu sylwadau am drefniadaeth cyffredinol yr ysgol.

dd) **Gêmau amser chwarae gwlyb** – dywedodd Owen Jac fod diffyg gêm/gweithgareddau amser chwarae gwlyb yn broblem mewn rhai dosbarthiadau, a chytunodd gweddill aelodau’r pwyllgor. Awgrymodd Sami fod hyn, eto, yn rhywbeth i’w gyfeirio at y pwyllgorau **Gorau Chwarae Cyd Chwarae** a **Dyngarol** er mwyn trafod syniadau ar sut i godi arian i brynu gêm newydd - Catrin i wneud hyn.

## 2. Unrhyw Faterion Eraill

a) **Blwch Syniadau** – edrychodd Gethin yn y blwch syniadau ond doedd dim awgrymiadau yno.

b) **Gwasanaeth Ysgol Gyfan** - Dywedodd Mrs Llwyd fod Mr Williams yn awyddus i’r Cyngor Ysgol wneud cyflwyniad byr yn y Gwasanaeth ysgol gyfan fore dydd Llun nesaf, er mwyn cyflwyno’u hunain ac esbonio ychydig am rôl y Cyngor Ysgol wrth weddill yr ysgol.

Diolchodd Gethin i bawb am ddod cyn cloi’r cyfarfod.

**Cyfarfod yn gorffen** – 9:30yb